## Astudiaeth achos - Beth oedd ysgol fel yn yr oes Rhufeinig?

Daeth disgyblion o Ysgol Gynradd Lodge Hill i Amgueddfa Leng Rufeinig Cymru fel rhan o Ddiwrnod Meddiannu Kids in Museums, 2017. Cymerwyd yr awenau ganddynt er mwyn dweud hanes ysgolion yn ystod yr oes Rhufeinig, Crëwyd y fidio a welir yma ganddynt wedi iddynt ei sgriptio a'i ffilmio. Aethant y tu ôl i'r llenni yn yr Amgueddfa hefyd i ddarganfod gwrthrychau Rhufeinig, ac yna dewis a thynnu lluniau o'r eitemau er mwyn ychwanegu at eu stori.

**Creu Fideo:** Defnyddiwch yr adnoddau yma hon i'ch helpu i gynllunio a chreu fideo ar bwnc o'ch dewis ar gyfer ei uwchlwytho i Cagliad y Werin Cymru. Gallwch ddefnyddio'r cynnwys ar y wefan yma ar gyfer eich ymchwil. Crëwch *gasgliad* i gynnwys y fideo, ac unrhyw wrthrychau i gyd-fynd a'r fideo, a *stori* i ddweud mwy am y pwnc. Dysgwch sut i uwchlwytho *eitemau* a chreu *casgliadau* gan ddefnyddio ein canllawiau hawdd eu dilyn i ddefnyddwyr. Gweler y Blwch Offer i Athrawon am help ar sut i wneud y mwyaf o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol wrth ffurfio prosiect.

### Dyma sut y gwnaethon ni'r fideo

Yn ystod y dydd, daeth disgyblion i ymweld ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion. Buont yn cymryd rhan yng ngweithdy traws-gwricwlaidd *Grammaticus – Dosbarth Rhufeinig*, gyda hwylusydd mewn gwisg. Roedd y gweithdy'n edrych ar iaith, rhifedd a llythrennedd. Bu'r plant yn dysgu sut am addysg a chymdeithas Rufeinig dan oruchwyliaeth athro Rhufeinig llym.

Yna, aethant ati i weithio fel tîm i greu'r fideo. Roeddent yn gweithio gyda hwyluswyr ac athrawon i ddewis golygfeydd er mwyn cael cyflwyno bywyd ysgol y Rhufeiniaid o'u safbwynt nhw. Ysgrifennodd y grŵp eu sgript eu hunain a dewis cast ar gyfer pob golygfa.

Ffilmiwyd y fideo tri munud ar iPad, a'i olygu ar iMovie cyn ei gyhoeddi ar Casgliad y Werin Cymru. Cawsom ganiatâd i ffilmio a thynnu lluniau o'r disgyblion, gan lenwi'r ffurflenni caniatâd ar y diwrnod.

## Sgriptio a chreu Bwrdd Stori ar gyfer Casgliad y Werin

Defnyddiwch y templed yma i gynllunio fideo am bwnc o'ch dewis chi. Casglwch y wybodaeth angenrheidiol, ac unrhyw wrthrychau yr hoffech hwyrach dynnu llun ohonynt er mwyn eu harddangos gyda'r fideo ar y wefan. Yna llunion gynllun stori!

### Cynllun Stori

Mae'r cynllun stori yn cynnwys yr holl bynciau yr hoffech eu trafod yn y fideo. Gall hefyd gynnwys rhestr o olygfeydd posib, a llinellau i'w ddweud yn y golygfeydd hynny. Gall y dysgwyr benderfynu beth sydd yn digwydd ym mhob golygfa ac ysgrifennu sgript unai gan ddefnyddio'r llinellau awgrymedig, neu trwy greu script eu hunain ar gyfer pob golygfa o'r dechrau.

**Cyflwyniad:**

**Pynciau:**

**Diweddglo:**

**Templed Bwrdd Stori**

| Rhif | Golygfa | | Script | Actorion |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | |
| 2 | | | | |
| 3 | | | | |
| 4 | | | | |
| 5 | | | | |
| 6 | | | | |
| 7 | | | | |
| 8 | | | | |